



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**



# Ein rôl yn Wylfa Newydd



[cyfoethnaturiol.cymru](http://cyfoethnaturiol.cymru)



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

Ein pwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy. Yn Wylfa Newydd, byddwn yn gwneud hyn mewn tair ffordd:

- Asesu cynllun yr adweithyddion
- Trwyddedu Amgylcheddol
- Rhoi cyngor arbenigol i sefydliadau eraill ynghylch penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud



## Asesu cynllun yr adweithyddion

Fe fydd yn rhaid i gynllun yr adweithydd a gynigir gan Horizon – yr Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch – basio proses yr Asesiad Cynllun Generig. Dyma raglen pedair blynedd, ac fe fydd y bartneriaeth hon rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yn ymchwilio i, ac yn asesu, agweddau ar ddiogelwch, gwarchod yr amgylchedd a rheoli gwastraff mewn perthynas â chynlluniau'r adweithydd.

Ar ddiwedd y broses fe fydd y rheoleiddwyr yn penderfynu ar y cyd pa un a fyddant yn cymeradwyo'r cynllun ar gyfer ei ddefnyddio yn y DU, ynteu yn ei wrthod.

## Trwyddedu Amgylcheddol

Cyn y gall y datblygwr adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear yn Wylfa Newydd, mae angen nifer o drwyddedau amgylcheddol gennym ni. Pwrpas y rhain yw sicrhau y bydd y gwaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf yn niweidio cyn lleied ag y bo modd ar yr amgylchedd.

Rydym eisoes wedi rhoi rhai trwyddedau i warchod yr amgylchedd rhag gwaith sydd wedi'i wneud. Er enghraifft rhoi caniatâd i gwmpo rhywfaint o goed, defnyddio chwynladdwr dan reolaeth a chynnal ymchwiliadau ar wely'r môr.

Fe fydd yn rhaid i Horizon gyflwyno ceisiadau manwl inni ar gyfer nifer o brif drwyddedau.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y rhain. Dyma nhw:

**Gollwng dŵr adeiladu** – rheoli a lleihau effeithiau draeniad y safle a dŵr llygredig yn ystod y prif gyfnod adeiladu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gollyngiadau o waith cynhyrchu concriid a systemau carthion.

**Trwyddedu morol** – mae hyn yn ofynnol ar gyfer unrhyw waith sy'n cynnwys adeiladu, symud a gwaredu deunyddiau islaw'r marc penllanw. Mae hyn yn cynnwys nodweddion fel morgloddiau, cyfleuster i ddadlwytho cargo oddi ar longau (cyfleuster dadlwytho morol) neu garthu'r môr.

**Sylweddau ymbelydrol** – er mwyn dangos sut y bydd Horizon yn gwarchod pobl a'r amgylchedd trwy leihau faint o wastraff ymbelydrol y bydd yn ei gynhyrchu a'i ollwng.

**Tynnu dŵr** – yn ystod y gwaith adeiladu, fe fydd Horizon angen lleihau lefelau dŵr daear trwy bwmpio dŵr o'r ddaear. O'r herwydd, efallai y bydd angen iddynt gyflwyno cais am drwydded i dynnu dŵr er mwyn dangos sut y byddant yn delio â hyn heb niweidio'r amgylchedd lleol neu nentydd gerllaw.

**Gollwng dŵr oeri** – er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol y gwaith o dynnu dŵr môr i oeri systemau'r gwaith a'i ollwng (yn gynhesach, gyda chemegau ynddo) yn ôl i'r môr.

**Safle ymlogsi** – sicrhau bod gan fwyleri a generaduron wrth gefn fesurau i warchod yr amgylchedd lleol.

Os credwn y gallai Horizon wneud mwy i warchod yr amgylchedd, neu os credwn nad yw wedi rhoi digon o wybodaeth am y modd y mae'n bwriadu gwneud hynny, byddwn yn gwrthod rhoi'r caniatâd perthnasol.

## Cynghori eraill


Bydd Llywodraeth y DU a Chyngor Sir Ynys Môn yn gwneud penderfyniadau ar faterion megis caniatâd cynllunio, ffyrdd newydd, canolfannau llety a logisteg. Byddwn yn darparu cyngor arbenigol ar yr agweddau hyn i warchod a gwella'r amgylchedd.



©Martin Perrow

## Ymgynghori

Rydym yn ymwybodol bod gan y cyhoedd ddi-ddordeb mawr yn Wylfa Newydd ac rydym yn ymrwmo i fod yn gwbl glir yn ystod pob cam o'r daith, gan roi cyfle i bobl gyfrannu at y broses.



Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, rhowch wybod inni:  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yhmoliadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
03000 65 3000